

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Tachwedd 8: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Tachwedd 8: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 8: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Tachwedd 1: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Tachwedd 2: Dosbarth Gwau rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Tachwedd 6: Cynhelir 'Dwylo Prysyr' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 8: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Tachwedd 6: Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 1

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 8

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Cyfarfod Blynyddol

Cynllun Efe

Nos Lun,

Tachwedd 9

7.00 o'r gloch

Capel y Rhos, Llanrug

Croeso i bawb



Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 1

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL

(Gwyliau Hanner Tymor)

5.00 p.m. - Y Parchg Euros Jones

Tachwedd 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronlyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 656: Dydd Sul, 01 Tachwedd, 2015

Wedi mynd yn angof

Yn ôl un cyfaill o ddyddiau ysgol roedd John Johnson yn 'wr hawddgar a hwyliog, yn ymwrthod â chweryl a chynnen ... ac yn driw i'w gyfeillion'. Yr un cyfaill, Oswald Tesimond, a ddywedodd hefyd ei fod yn 'fedrus iawn ym mhethau rhyfel'. Daethai hynny i'r amlwg wedi iddo adael Lloegr i ymladd dros Babyddion Sbaen yn erbyn Protestaniaid yr Iseldiroedd yn Rhyfel Annibyniaeth yr Iseldiroedd ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ganrif nesaf.

Ychydig a wŷr am John Johnson erbyn hyn. Dros dreigl y blynyddoedd, aeth ei enw a'i hanes yn angof. Ond nid yn gwbl angof gan mai ffugenw oedd John Johnson. Mae'n fwy cyfarwydd wrth ei enw bedydd, Guy. A nos Iau, caiff y Guy Fawkes hwnnw sylw mawr yn nathliadau blynyddol Noson Tân Gwylt neu Noson Guto Ffowc. Diolch am hynny, mae'r arfer o wneud delw o Guto i'w llosgi ar y goelcerth fwy neu lai wedi diflannu, ond mae ei enw'n dal yn gysylltiedig â'r dathliadau.

Ond cilio wnaeth y cof am yr hyn a wnaeth Guto a'i gyd-gynllwynwyr ym mis Tachwedd 1605. Ac yng nghanol cyffro'r tân gwylt nos Iau, fydd neb yn sôn am gynllwyn aflwyddiannus Guto Ffowc a'i gyd-Babyddion i chwythu Tŷ'r Arglwyddi'n ddarnau mân er mwyn lladd y brenin Iago I a gosod ei ferch Elizabeth ar yr orsedd, gyda'r bwriad iddi briodi â Phabydd er mwyn troi gwledydd Prydain unwaith eto at y

Ffydd Babyddol. Fydd neb yn sôn nos Iau am y coelcerthi a gyneuwyd ar Dachwedd 5, 1605 i ddathlu methiant cynllwyn Guto a'i gyfeillion, wedi iddo gael ei ddal gyda'r ffrwydrion, dan Dŷ'r Arglwyddi yn oriau mân y diwrnod hwnnw. Fydd neb yn sôn am John Johnson yn gwrthod datgelu ei wir enw nac enwau ei gyfeillion nes iddo gael ei arteithio. A fydd neb yn sôn amdano'n cael ei ddedfrydu i'w ladd oherwydd teyrnfradwriaeth.

Does a wnelo dathliadau Tachwedd 5 ddim â Guto bellach. A da hynny os yw'n golygu nad ydym bellach yn dathlu'r modd y cafodd Guto a rhai o'i gyfeillion eu harteithio a'u dienyddio. Mae hynny'n hwylus iawn hefyd yn ein galluogi i osgoi cywilydd y dadlau hyd at waed a gafwyd yn ei ddydd ef rhwng pobl oedd yn honedig yn arddel y Ffydd Gristnogol. Mater o farn yw a ddylem osgoi sôn am y fath gwilydd.

Wrth nesau at dymor y Nadolig, un o'm hofnau yw fod yr ŵyl wedi colli ei gwir gyswllt â'r Un a roes fod iddi. Gall cyswllt yr Iesu â gwyliau mawr yr Eglwys fod mor frau â'r un rhwng Guto a'r noson sy'n dwyn ei enw. Ein braint ni yw tystio i fywyd a gwaith yr Iesu, fel nad aiff y cyfan yn angof. Bydd y dystiolaeth honno'n amlygu cywilydd ein gwrthryfel yn erbyn Duw. Nid rhywbeth i'w anghofio mo hwnnw, ond rhywbeth i'w gydnabod, gan mai trwy ei gydnabod yn edifeiriol y daw maddeuant llawn amdano. Ac onid hynny fydd achos ein dathlu?

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes, Llanfachreth, ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Jones, Llangefni. Diolch i'r ddau am eu gwasanaeth. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Andrew Settatree, Caethro.

Ni chynhelir Ysgol Sul yn Nhalybont heddiw. Gwasanaethir yn yr oedfa am 2.00 o'r gloch gan y Parchg John Owen, Rhuthun. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb arall sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Myfanwy Davies, 5 Stryd yr Wyddfa, Llanberis a fu farw yn Ysbyty Gwynedd nos Sadwrn, Hydref 24, yn 89 mlwydd oed.

Un o aelodau eglwys Nant Padarn oedd Mrs Davies, ac yr oedd yn hynod o ffyddlon i'r gwasanaethau yn Capel Coch.

Cydymdeimlwn ag Elwyn a Gwenda a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth. Boed i Dduw eu cynnal yn eu hiraeth a'u colled. Cynhelir gwasanaeth angladd cyhoeddus yn Capel Coch am 11.00 o'r gloch fore yfory, dydd Llun, Tachwedd 2.

Dosbarth Gwau

Bnawn yfory, ddydd Llun, Tachwedd 2, cynhelir y 'Dosbarth Gwau' yn festri Carmel, Llanllechid rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Estynnir croeso cynnes i chi i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 9.

Yn y cyfarfod hwn ceir adroddiad am waith y Cynllun dros y flwyddyn. Mae'n gyfle bob blwyddyn i ni ddiolch hefyd i Andrew ac i bawb sy'n cefnogi gwaith Efe mewn unrhyw ffordd.

Anodd credu fod oddeutu deng mlynedd ers i ni sefydlu Cynllun Efe yn y gobaith o gael gweithiwr i gefnogi cenhadaeth yr eglwys ymhlith pobl ifanc a phlant yr ardal. Buom yn brysur ar y cychwyn yn cynllunio ac yn chwilio am arian cyn i Andrew Settatree gychwyn ei waith ddechrau Hydref 2008. Mae Andrew, felly, gyda ni ers mwy na saith mlynedd.

Ers deunaw mis, mae gan Gynllun Efe gytundeb â Trobwynt, mudiad tebyg i ni yn Llŷn ac Eifionydd, sy'n golygu fod Andrew ei rhannu ei amser rhwng y ddau fudiad. Adnewyddwyd y cytundeb hwnnw ddiwedd yr haf am gyfnod o dair blynedd pellach.

Bydd croeso cynnes i chi i'r Cyfarfod Blynyddol.

Parti Goleuni

Cynhelir Clwb Plant yn festri Bethlehem bnawn Mawrth diwethaf. Gan ei bod yn wyliau, cafwyd pnawn o hwyl a gemau. Mwynhaodd y plant gyflwyniad hwyliog o ddameg Iesu am y ddafad golledig trwy gyfrwng pypedau.

Diolch i Jennifer Roberts, sy'n weithiwr ieuencid gyda'r Eglwys yng Nghymru, am drefnu'r cyfan, a diolch i aelodau Bethlehem am eu cefnogaeth.

Cyfarfod Chwarter

Yng Nghyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Salem, Caernarfon nos Fercher cafwyd pregeth gan y Parchg Euros Jones, Llangefni. Estynnwyd croeso iddo gan Gadeirydd y Cyfundeb, y Parchg Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno.

Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwys i'r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda, a wneuch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda.

Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl. Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy'n ein helpu yn hyn o beth.

Agor y Llyfr

Gweddiwch dros ymweliad cyntaf criw 'Agor y Llyfr' ag Ysgol Gwau Gynfi, Deiniolen fore Gwener, Tachwedd 13. Trefnir y gweithgaredd newydd hwn gan Andrew a Chynllun Efe.

Cymdeithas Llanberis

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Tachwedd 10 yng nghwmni Annette Bryn Parri, Deiniolen.

CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Wener, Tachwedd 13.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Tachwedd 17 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau a'r hamperi, byddem yn falch iawn o'u cael gan y bydd pob rhodd yn help i sicrhau llwyddiant y Ffair.

Y pris mynediad yw £1, yn cynnwys paned a bisged. Ni fydd angen i blant dalu. Dowch os medrwch i gefnogi'r ymdrech.